Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cylchlythyr | Circular

Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn addysg uwch

Dyddiad:	02 Tachwedd 2023	
Cyfeirnod:	W23/29HE	
At:	Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru	
Ymateb erbyn:	02 Chwefror 2024	
Cyswllt:	Enw:	Savanna Jones Amanda Phillips
	E-bost:	savanna.jones@hefcw.ac.uk amanda.phillips@hefcw.ac.uk

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ac yn gofyn am adroddiadau ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) mewn addysg uwch. Rydym yn cydnabod bod trais, cam-drin ac aflonyddu'n effeithio ar bobl ni waeth beth fo'u rhywedd. Mae'r canllawiau hyn wedi'u fframio o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond maent yn ystyried materion tebyg a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy ni waeth sut y mae rhywun yn mynegi ei hunaniaeth.

Dyma ail gylchlythyr CCAUC ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'r cylchlythyr cyntaf: W20/39HE: Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn AU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2020.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ac yn gofyn am adroddiadau ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) mewn addysg uwch. Rydym yn cydnabod bod trais, cam-drin ac aflonyddu'n effeithio ar bobl ni waeth beth fo'u rhywedd ac y gall nodweddion croestoriadol, megis hil, ethnigrwydd a/neu rywedd greu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol.

2. Mae ein hasesiad o'r effaith wedi dangos bod menywod yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig a thrais rhywiol ac felly rydym wedi fframio'r canllawiau hyn o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, bydd arfer a gwersi a fydd yn goleuo camau gweithredu i fynd i'r afael â thrais, cam-drin ac aflonyddu ar eu holl ffurfiau ac ni waeth sut y mae rhywun yn mynegi ei hunaniaeth. Mae'r canllawiau hyn wedi'u fframio o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ond maent yn ystyried materion tebyg a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy ni waeth sut y mae rhywun yn mynegi ei hunaniaeth.

3. Dyma ail gylchlythyr CCAUC ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'r cylchlythyr cyntaf: W20/39HE: Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn AU, a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2020.

4. Mae'r canllawiau a'r cais am wybodaeth a geir yma:
   - yn ystyried Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-26 a'r glasbrint sy'n cyd-fynd â hi;
   - yn cyfrannu at waith parhaus gan ddarparwyr AU ar gynlluniau cydraddoldeb strategol, gyda chynlluniau newydd i gael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2024, cynlluniau llesiant, iechyd ac iechyd meddwl, cynlluniau gwrth-hiliol, datblygiadau o ran profiad staff a myfyrwyr, polisïau cadw a llwyddiant staff a myfyrwyr, polisïau diogelu a phrosesau cysylltiedig[1];
   - wedi'u goleuo gan chwe chyhoeddiad Universities UK[2] yn y gyfres Changing the Culture; ac
   - yn ystyried adroddiad Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn addysg bellach.

5. Mae CCAUC yn aelod o ffrwd waith glasbrint Llywodraeth Cymru ar fannau cyhoeddus[3]. I hysbysu'r canllawiau yma rydym wedi cymryd cyngor gan Gynghorydd Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Trais Rhywiol fel nodir yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Trais

[1] Mae CCAUC wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân mewn nifer o'r meysydd hyn y dylid eu hystyried hefyd ochr yn ochr â'r cylchlythyr hwn.
[2] Changing the culture 2016; Changing the culture: directory of case studies 2017; Changing the culture: one year on 2018; Changing the culture: two years on 2019; Changing the culture: tackling staff-to-student sexual misconduct 2022; Changing the culture: sharing personal data in harassment cases 2022.
[3] Mae glasbrint Llywodraeth Cymru'n cael ei oleuo gan chwe ffrwd waith: comisiynu cynaliadwy ar draws ein systemau; anghenion plant a phobl ifanc; anghenion pobl hŷn; mynd i'r afael â chyflawni trais; aflonyddu yn y gweithle; aflonyddu ar sail rhyw mewn mannau cyhoeddus.

ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Trais Rhywiol (Cymru) 2015. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill gan gynnwys Cymorth i Ferched Cymru i oleuo ein dealltwriaeth am y maes polisi hwn ac wrth i ni symud i mewn i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) a gweithredu mewn cyd-destun ôl-16.

Y cefndir a'r cyd-destun polisi

6. Diben y canllawiau hyn yw adeiladu ar y canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn 2020 a dylid eu darllen ochr yn ochr â hwy. Ers y cyhoeddiad blaenorol (W20/39HE), mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar ymgeiswyr, staff a myfyrwyr mewn addysg uwch, wedi newid ffyrdd o fyw, gweithio, dysgu ac addysgu ac wedi newid rhai ymddygiadau ac agweddau mewn modd anffafriol. Mae'r canllawiau hyn yn parhau â'n ffocws ar addysg uwch ddiogel a chynhwysol ac yn ceisio sicrwydd ynghylch y cynnydd a wnaed gan brifysgolion ers 2020. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch ystyried y cyhoeddiadau a'r adnoddau a nodir yn y canllawiau hyn ac y byddant, lle y bo angen, yn adolygu a diweddaru eu prosesau i adlewyrchu arfer da cyfredol. Wrth i ni symud tuag at sefydlu'r CADY byddwn yn ystyried gwersi o addysg bellach ac uwch i oleuo datblygiadau polisi yn y dyfodol.

7. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-26 a'r glasbrint sy'n cyd-fynd â hi yn cynnwys blaenoriaethau newydd mewn perthynas â menywod yn y gweithle ac ar y stryd, yn ogystal ag yn y cartref.

8. Ym mis Chwefror 2022, fe gynhaliom ni seminar cyfnewid gwybodaeth ar fynd i'r afael â thrais, cam-drin a thrais rhywiol lle cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt strategol a lle gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a BAWSO hyrwyddo ymgyrchoedd a oedd yn berthnasol i addysg uwch, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer gwylwyr. Rydym yn bwriadu parhau i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys darparwyr addysg ôl-16.

9. Yn 2023, fe gyhoeddom ni gylchlythyr W23/06HE Addysg uwch ddiogel a chynhwysol sy'n cynnwys ystyriaeth i groestoriadedd. Mae'r cylchlythyr yn cyfeirio at gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, yn ogystal â mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwrth-hiliaeth. Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru wedi ymrwymo i ennill siarter cydraddoldeb hiliol erbyn 2025. I wneud cynnydd yn gyflym tuag at fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth ac ennill y siarter cydraddoldeb hiliol, rydym wedi dyrannu £1m y flwyddyn, gyda chyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu gan brifysgolion i'r un lefel. Dechreuodd y cyllid hwn yn 2021/22 ac rydym wedi ymrwymo i'w ddarparu tan ddiwedd 2024/25, yn amodol ar ailddatgan y gyllideb hon gan y CADY.

10. Fe wnaeth adroddiad Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau Senedd y DU, Attitudes towards women and girls in educational settings, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, nodi bod myfyrwyr benywaidd yn profi lefelau uchel o aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol, ar ac oddi ar gampysau prifysgolion. Argymhellodd yr

adroddiad y dylai rhaglenni ymyrryd seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer gwylwyr gael eu gwneud yn orfodol i'r holl fyfyrwyr ar eu blwyddyn gyntaf a bod rhaid gwahardd gallu prifysgolion i ddefnyddio cytundebau peidio â datgelu i dawelu dioddefwyr aflonyddu a thrais rhywiol. Caiff y canfyddiadau a'r argymhellion eu nodi ar dudalennau 33-36 yn yr adroddiad.

11. Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd yn cadarnhau na fyddant yn defnyddio cytundebau peidio â datgelu mewn achosion o aflonyddu neu gam-drin rhywiol ar gyfer staff a myfyrwyr.

12. Bydd y CADY yn cael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2024. Mae dyletswydd strategol ar y CADY i hybu cyfle cyfartal mewn addysg ôl-16 a bydd yn cyflwyno amod cofrestru sy'n gysylltiedig â lles myfyrwyr.

Diffinio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

13. Mae trais yn erbyn menywod a merched yn cynnwys cam-drin domestig; treisio a thrais rhywiol; stelcian; priodas dan orfod; trais ar sail anrhydedd; anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM); masnachu mewn menywod a chamfanteisio'n rhywiol gan gynnwys trwy'r diwydiant rhyw; ac aflonyddu rhywiol mewn bywyd gwaith a chyhoeddus. Rydym yn ymwybodol nad oes cytundeb cyffredinol ar ddiffiniadau o dermau o'r fath a all fod yn her ar gyfer adrodd, datblygu polisi a hyrwyddo cymorth ar gyfer y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

14. Rydym yn cydnabod bod trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bawb, gan gynnwys plant, teulu a ffrindiau. Mae plant sy'n gweld, yn clywed neu'n profi effeithiau cam-drin domestig yn oroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bob agwedd ar fywydau pobl, gan gynnwys dysgu, gweithio, cydnerthedd ehangach, llesiant ac iechyd meddwl.

15. Ceir crynodeb o ddiffiniadau yn **Atodiad A**, yr ydym wedi cyhoeddi rhai ohonynt yn flaenorol. Rydym wedi ceisio cyngor ar y diffiniadau hyn gan Cymorth i Ferched Cymru.

Data a thystiolaeth a oleuodd ein canllawiau

16. Mae ein dadansoddiad ni o ddata a thystiolaeth yn nodi ei bod yn fwy tebygol y bydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio'n uniongyrchol ar rai grwpiau o unigolion.

17. Mae data[4] yn dangos y canlynol:
    - mae menywod 16 i 24 oed yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig nag unrhyw grŵp oedran arall;

[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- myfyrwyr amser llawn (7.7%) sydd fwyaf tebygol o brofi cam-drin domestig o'i gymharu ag unrhyw alwedigaeth arall;
- mae 17% (un ymhob chwech o bobl) 18 i 27 oed wedi dioddef cam-drin domestig gan bartner;
- mae Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill a phobl LHDTC+ (17%) yn fwy tebygol na phobl Wyn (11%) o ddioddef cam-drin domestig gan bartner; ac
- fe wnaeth un ymhob saith (15%) o bobl anabl LHDTC+ ddioddef cam-drin domestig yn y flwyddyn ddiwethaf.

18. Mae ymchwil yn awgrymu nad oes gan 98.5% o brifysgolion y DU strategaethau cam-drin domestig.[5] Yn gysylltiedig â hynny, canfu'r adroddiad Higher Education After #MeToo a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 gan y 1752 group fod gwahaniaethau sylweddol rhwng sut yr oedd gwahanol brifysgolion yn ymdrin â thrais ac aflonyddu ar sail rhywedd a sut yr ymdrinnid â hysbysiadau.

19. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) ddatganiad mewn ymateb i'r adroddiad Higher Education After #MeToo. Cyhoeddodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol grynodebau o achosion hefyd i ddangos y mathau o gwynion y maent wedi'u cael, gan nodi bod cwynion sy'n ymwneud â chamymddwyn ac aflonyddu rhywiol wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf.

Beth sydd wedi newid ers ein canllawiau diwethaf?

20. Ers ein canllawiau diwethaf, mae adroddiadau ac adnoddau newydd wedi cael eu cyhoeddi. Mae ein canllawiau'n ystyried y cyhoeddiadau hyn, gan gynnwys fel y maent yn ymateb i effaith barhaus pandemig Covid-19.

Canllawiau, ymchwil ac ymgyrchoedd diweddar

21. Mae Universities UK wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol, gan gynnwys argymhellion:
    - Changing the culture: tackling staff-to-student sexual misconduct - Canllaw strategol i gefnogi is-gangellorion a chyrff llywodraethu. Mae'n darparu crynodeb o'r broblem ac argymhellion strategol, lefel uchel (2022);
    - Changing the culture: sharing personal data in harassment cases – Canllaw strategol ac ymarferol i helpu prifysgolion i ddeall ffyrdd ymarferol o rannu data pan fo'n briodol gwneud hynny (2022).

22. Nododd yr adroddiad Harmful Traditional Practices in the Workplace – canllawiau arfer gorau gan Brifysgol Canol Sir Gaerhirfryn – fod y pandemig wedi newid y ffordd y mae addysg uwch yn gweithredu, gan effeithio ar y ffordd y gall prifysgolion gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig o blith y staff a myfyrwyr sy'n

[5] HARM Network, (2021) Domestic Abuse Policy Guidance for Universities, Prifysgol Canol Sir Gaerhirfryn.

gweithio neu'n dysgu o bell ac ar-lein". [6] Mae'r canllawiau'n amlygu ystyriaethau ac yn darparu argymhellion sy'n canolbwyntio ar dri maes: yr amgylchedd, addysg a grymuso.

23. Mae tystiolaeth mewn adroddiadau ar wersi o ysgolion a cholegau yn dynodi bod ymddygiad sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys ymddygiad y gellir ei reoli trwy ymyriadau cynnar, wedi gwaethygu ers y pandemig.[7] Mae'n debygol y bydd hyn yn dwyn goblygiadau ar gyfer pontio i addysg uwch.

24. Mae adroddiad thematig Estyn Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellach yn nodi saith argymhelliad, y mae pump ohonynt yn rhai i golegau, a dau yn rhai i Lywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion yn annog colegau i:

    i. sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a thrafodaethau yn ymwneud â ffurfio a chynnal perthnasoedd iach;
    ii. datblygu strategaethau i atal a mynd i'r afael ag agweddau a diwylliannau misogynistaidd sy'n datblygu ymhlith grwpiau o ddysgwyr;
    iii. sicrhau bod yr holl aelodau staff perthnasol yn ymgymryd â dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i nodi ac ymateb yn hyderus i aflonyddu rhywiol, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach;
    iv. sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ym mhob ardal o adeiladau, tir, mannau rhithiol a thrafnidiaeth y coleg; a
    v. chofnodi, categoreiddio a dadansoddi achosion o aflonyddu, ymosodiadau a cham-drin rhywiol mewn ffordd gyson sy'n galluogi arweinwyr i nodi tueddiadau a chymryd camau priodol i ymateb iddynt.

25. Er mai i golegau y mae'r argymhellion hyn, mae sawl agwedd yn berthnasol i arfer a phrosesau mewn addysg uwch hefyd. Bydd dyletswydd statudol ar y CADY i hybu cyfle cyfartal ar draws y sector addysg ôl-16. Bydd cyfleoedd newydd i rannu gwersi perthnasol ar draws gwahanol rannau o'r system ôl-16.

26. Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr wedi lansio arolwg peilot ar gyffredinrwydd camymddwyn rhywiol mewn darparwyr addysg uwch yn Lloegr. Mae hyn yn dilyn adolygiad i ganfod i ba raddau yr oedd yn gallu sicrhau y cydymffurfir â'i Datganiad o Ddisgwyliadau ac ymgynghoriad ar ddull newydd o reoleiddio aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.

27. Cyhoeddodd Universities UK dempled ar gyfer Arolwg y Prosiect Peilot Trais yn y Brifysgol. Efallai y bydd prifysgolion yn dymuno ystyried yr arolwg hwn fel enghraifft o sut i goladu gwybodaeth.

---

[6] Khan, R. a Hall, B. (2020). Harmful Traditional Practices in the Workplace. Guidance for Best Practice. HARM, UCLan, Y DU

[7] Ataliol, amddiffynnol a chadarnhaol: Sut all dull ysgol gyfan Cymru o ymdrin ag addysg perthnasoedd a rhywioldeb statudol gefnogi ysgolion.
"We're educating ourselves" selected findings from new NSPCC research into what, how and where young people are learning about relationships, sex and sexuality (2023).

28. Cynhaliodd ymgyrch lawn Llywodraeth Cymru arolwg gyda chyfanswm o 505 o ddynion (rhwng 18 a 54 oed). Roedd 75% o ddynion yn meddwl bod Cymru'n lle diogel i fod yn fenyw ac roedd 39% o ddynion yn credu bod ymdrechion i gyflawni cydraddoldeb i fenywod wedi arwain at wahaniaethu yn erbyn dynion. Fodd bynnag, nid oedd llawer yn deall y termau a'r diffiniadau mewn perthynas â thrais ar sail rhywedd. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod datgysylltiad rhwng realiti a chanfyddiad. Dywedodd Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, fod yr ymgyrch lawn "yn bwysig iawn gan bod casineb at fenywod, rhywiaeth, trais yn erbyn menywod – a cham-drin domestig, yn y newyddion bob dydd a bod pobl yn siarad am hyn fel epidemig. Mae'n drist dweud yn yr oes sydd ohoni bod dynion iau yn dal i beidio â chydnabod bod menywod, menywod ifainc a menywod o bob grŵp oedran mewn gwirionedd yn dal i ddioddef lefelau annerbyniol o drais ac aflonyddu rhywiol".

Adnoddau

29. Caiff adnoddau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ategu'r gwaith hwn eu disgrifio yn **Atodiad B**.

Adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin a thrais rhywiol mewn addysg uwch a rhannu arfer

30. I adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn staff a myfyrwyr, yn ogystal â thrais, cam-drin ac aflonyddu ni waeth beth fo hunaniaeth y dioddefwr rydym yn gofyn i brifysgolion ddarparu adroddiadau i ni. Wedyn byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i:
    - ddangos tystiolaeth o gynnydd tuag at sicrhau addysg uwch ddiogel a chynhwysol;
    - rhannu arfer diddorol;
    - adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar gyfraniad addysg uwch at y strategaeth a'r glasbrint Trais yn erbyn Menywod;
    - goleuo ein dealltwriaeth am safbwyntiau prifysgolion yn erbyn Aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellach;
    - goleuo ein datblygiadau polisi wrth i ni symud i mewn i'r CADY.

31. Rydym yn nodi ein gofynion adrodd yn **Atodiad C**.

32. Os oes gwybodaeth benodol y byddwch yn ei darparu i ni nad ydych yn dymuno i ni ei rhannu'n fwy eang rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Darparwch wybodaeth am astudiaethau achos sy'n ymwneud â gwasanaethau neu weithgareddau yn unig ac nid unigolion os gwelwch yn dda.

Amserlen

33. Anfonwch eich ymatebion at Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk) erbyn **dydd Gwener, 2 Chwefror 2024**.

Rhagor o wybodaeth

34. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Savanna Jones (savanna.jones@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

35. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb. Rydym yn disgwyl y bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig, yn fwyaf nodedig lle mae hyn yn croestorri â hil, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol. Cydnabu ein hasesiad o'r effaith fod angen adnoddau pellach trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda phrifysgolion i sicrhau, lle darperir hyfforddiant, ei fod ar gael yn ddwyieithog.

36. Fe wnaethom ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Fe wnaethom nodi bod yr ymgyrch lawn gan Lywodraeth Cymru a hyrwyddir yn y canllawiau hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai prifysgolion ystyried anghenion myfyrwyr fel y maent yn ymwneud ag ieithoedd eraill hefyd. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

Atodiad A

Diffinio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym wedi ychwanegu peth terminoleg newydd at y canllawiau hyn. Rydym wedi dyfynnu ffynhonnell y diffiniadau a ddefnyddir. Rydym yn derbyn y gall fod diffiniadau eraill, tebyg a ddefnyddir.

Mae terminoleg newydd y cyfeirir ati yn y canllawiau hyn yn cynnwys:

- **Aflonyddu rhywiol:** unrhyw ymddygiad rhywiol dieisiau sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofidus, yn ofnus, wedi'u tramgwyddo neu wedi'u bychanu, neu sydd wedi'i fwriadu i wneud iddynt deimlo felly (Elusen Brook).

- **Camfanteisio rhywiol**: pan fo rhywun yn cael eu cymell, eu gorfodi neu eu defnyddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti, neu allan o anghenraid i ariannu anghenion sylfaenol. Adwaenir hyn hefyd fel 'rhyw er mwyn goroesi' ac mae'n cynnwys cytundebau 'rhyw yn lle rhent'. Gall y math yma o gamfanteisio ddigwydd mewn nifer o amgylcheddau gan gynnwys ar y stryd, ar-lein neu mewn parlyrau. Fel arfer mae gan gyflawnwyr rym dros eu dioddefwyr, oherwydd oedran, rhywedd, hunaniaeth rywiol, cryfder corfforol, neu statws. Mewn nifer o achosion, bydd cyflawnwyr yn paratoi dioddefwyr/goroeswyr at ddibenion rhyw (Cymorth i Ferched Cymru). Mae enghreifftiau o sut y gellir camfanteisio'n rhywiol ar oedolion yn cynnwys:
  - cael eu cymell neu eu gorfodi i wneud gwaith rhyw gan drydydd parti megis partner (Cymorth i Ferched Cymru);
  - cael eu cymell neu eu gorfodi i gymryd rhan mewn gwasanaethau rhyw trafodiadol i ariannu anghenion sylfaenol megis bwyd neu lety (y cyfeirir ato'n aml fel 'rhyw er mwyn goroesi' a threfniadau 'rhyw yn lle rhent') (Cymorth i Ferched Cymru);
  - teimlo nad ydynt yn gallu mynd ar drywydd dewisiadau eraill oherwydd anfanteision lluosog megis tlodi a chamddefnyddio sylweddau (Cymorth i Ferched Cymru).

- **Caethwasiaeth fodern:** mae'n cynnwys pob math o gaethwasiaeth, masnachu pobl a chamfanteisio (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Fel a nodwyd yn y canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn 2020, fe wnaeth Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-21 nodi'r diffiniadau canlynol:

- Mae **trais yn erbyn menywod a merched** yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):
  - trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu (gan gynnwys plant a phobl ifanc), o fewn y gymuned gyffredinol neu mewn cyd-destunau penodol megis addysg uwch, gan gynnwys cam-drin domestig, treisio a llosgach;
  - aflonyddu rhywiol, bwlio a dychrynu mewn unrhyw fan cyhoeddus neu breifat, gan gynnwys gwaith;
  - camfanteisio rhywiol masnachol, gan gynnwys puteindra, dawnsio glin, stripio, pornograffi a masnachu mewn menywod;

    - cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol yn y teulu, camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin ar-lein.

- **Trais a cham-drin domestig**: unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau rheolaethol, gorfodaethol neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng pobl 16 oed a throsodd sydd, neu a fu, yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, ni waeth beth fo'u rhywedd na'u rhywioldeb. Gall hyn gwmpasu, ymhlith eraill, y mathau canlynol o gam-drin:
    - seicolegol;
    - corfforol;
    - rhywiol;
    - ariannol; ac
    - emosiynol.

- Diffinnir **ymddygiad rheolaethol** fel ystod o weithredoedd sydd wedi'u bwriadu i wneud rhywun yn israddol a/neu'n ddibynnol trwy:
    - eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth;
    - camfanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er mantais bersonol;
    - eu hamddifadu o'r moddion y mae eu hangen i fod yn annibynnol, gwrthsefyll a dianc;
    - rheoli eu hymddygiad pob dydd.

- Diffinnir **ymddygiad gorfodaethol** fel gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu a dychrynu neu gam-drin o fath arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn dioddefwr.

- Mae **trais ar sail anrhydedd** yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: trais sy'n gysylltiedig â gwaddol, anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a phriodas plant, a throseddau 'anrhydedd'.

Atodiad B

Adnoddau

- Mae Pecyn Cymorth The Intervention Initiative yn adnodd rhad-ac-am-ddim sy'n cynnwys pecyn cymorth addysgiadol i atal gorfodaeth rywiol a cham-drin domestig. Fe'i crëwyd gan Brifysgol Gorllewin Lloegr ac fe'i cyllidwyd gan Public Health England.

- Mae Meic Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn perthynas â thorri'r distawrwydd ynghylch cam-drin a thrais rhywiol. Mae hefyd yn darparu porth ar-lein lle gall pobl gael cymorth mewn man diogel.

- Mae Student Space, y platfform iechyd meddwl ar-lein y mae CCAUC wedi ei gyd-gyllido gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr ers 2020, yn darparu hyfforddiant ar-lein ar gyfer myfyrwyr LHDTC+ ar ddiogelwch a cham-drin. Mae'r sesiynau, a gaiff eu rhedeg gan Galop, yn cynnwys gweithdai ar dri thestun: troseddau casineb yn erbyn pobl LHDTC+, cam-drin a thrais o fewn perthnasoedd rhwng pobl LHDTC+ a therapi trosi.

- Mae Podlediad Cymunedau Mwy Diogel yn amlygu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol gan gynnwys fel y mae hyn yn berthnasol i gaethwasiaeth fodern a chamfanteisio, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu ac ymyrryd yn gynnar.

- Mae Halo project yn gweithio mewn cydweithrediad gyda phrifysgolion i ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr (myfyrwyr y gyfraith yn bennaf) i gynyddu eu gwybodaeth am faterion trais ar sail rhywedd.

- Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Ferched Cymru yn llinell gymorth 24/7 a all gefnogi pobl yn eu dewis iaith. Yn ogystal â rhoi cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr, mae'r llinell gymorth hefyd yn croesawu galwadau ffôn gan weithwyr proffesiynol sy'n ceisio cyngor ar ddiogelu. Mae gwybodaeth ar gael yn Gymraeg.

- Mae'r llinell gymorth Dyn ar gyfer dynion yn rhoi gwybodaeth a chyngor i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thraws sy'n profi trais a cham-drin domestig gan bartner. Mae gwybodaeth ar gael yn Gymraeg.

- Mae gwefan Dewis Cymru yn beiriant chwilio o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n barhaus pan fo gwasanaethau newydd ar gael. Mae gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

- Mae ymgyrch Iawn Llywodraeth Cymru'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

- Mae Iechyd Meddwl A-Z | MYF sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn darparu gwybodaeth am anhwylder straen wedi trawma yn dilyn digwyddiadau difrifol fel treisio.